Hormonau Biounfath (*Bioidentical*)

Mr Haitham Hamoda, Gynaecolegydd Ymgynghorol, Ysbyty King's College, a Chadeirydd blaenorol – Cymdeithas Menopos Prydain.

Beth yw hormonau biounfath?

Mae hormonau biounfath yn hormonau sy'n debyg i'r hormonau a gynhyrchir gan yr ofarïau. Maent yn dod o ffynhonnell naturiol, ac fe'u ceir o echdynion iam a phlanhigion, ac maent yn debyg o ran adeiledd cemegol i oestrogen, progesteron a thestosteron a gynhyrchir gan yr ofarïau dynol.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hormonau biounfath cyfansawdd a HRT a roddir ar bresgripsiwn mewn modd confensiynol?

Mae hormonau biounfath cyfansawdd yn cyfeirio at hormonau sy'n cael eu gweithgynhyrchu mewn fferyllfa a'u haddasu yn unol ag anghenion y claf. Un o gyfyngiadau hormonau biounfath cyfansawdd yw nad ydynt yn dilyn yr un broses reoleiddiol ag y mae cynhyrchion HRT rheoledig yn eu dilyn. Un o anfanteision hynny yw y gallai fod yna broblemau yn ymwneud â diogelwch a phurdeb y cynhyrchion hyn. Un camsyniad cyffredin yw nad yw HRT rheoledig wedi'i deilwra i anghenion y claf yn yr un modd ag y mae hormonau cyfansawdd. Nid yw hyn yn gywir yn yr ystyr bod cynhyrchion rheoledig yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn yn unol ag anghenion y cleifion, maent yn cael eu haddasu, ac maent yn cael eu monitro, yn unol ag anghenion y claf, felly maent yn cael eu teilwra i ofynion neu anghenion y claf unigol hwnnw.

A oes yna fanteision yn gysylltiedig â hormonau biounfath rheoledig?

Mae yna fanteision yn gysylltiedig â hormonau biounfath. Dangoswyd bod oestrogen biounfath yn cael effaith fwy niwtral ar geulad gwaed a'r perygl o gael clotiau gwaed, o gymharu â mathau eraill o oestrogen. Ond, mae gan hormonau biounfath fantais sylweddol pan gânt eu rhoi trwy'r croen, a elwir yn ddull trawsgroenol. Wrth iddynt fynd trwy'r croen, maent yn cael effaith niwtral ar geulad gwaed, ac, o ganlyniad, yn cael effaith niwtral ar y perygl o ddatblygu clotiau gwaed neu strôc, pan gymerir HRT. Yn yr un modd â phrogesteron, os edrychwch ar brogesteronau biounfath, dangoswyd bod ganddynt broffil sgîleffeithiau is o gymharu â phrogesteronau synthetig eraill, ond mae astudiaethau hefyd wedi awgrymu bod y risg o gael canser y fron yn is, yn ôl pob tebyg, yn achos progesteronau biounfath o gymharu â phrogesteronau synthetig, ac maent hefyd yn cael effaith fwy niwtral ar geulad gwaed ac, o ganlyniad, effaith niwtral ar y perygl o gael clotiau gwaed a'r perygl o gael strôc.

A allaf gael cymysgeddau hormonau biounfath/tebyg i rai'r corff gan y GIG?

Mae hormonau biounfath rheoledig ar gael trwy'r GIG, trwy bresgripsiwn gan eich meddyg teulu neu gan eich clinig menopos lleol, felly byddech yn gallu cael cymysgeddau HRT biounfath neu debyg i rai'r corff sy'n cynnwys oestrogen a phrogesteron, yn debyg i'r hyn y byddai eich ofari yn ei gynhyrchu, a hynny trwy gael presgripsiwn gan y GIG trwy eich meddyg teulu neu eich meddyg arbenigol.